

YMARFER 3: Sylwadau

This year I have done much walking in Snowdonia, and although I am no expert on antiquities, I am always pleased to meet a standing stone or some ancient circle¹ to remind me² that humanity has somehow survived on the uplands for thousands of years. One thing obvious about these relics of prehistory is how rare they are³ in much of inland Snowdonia. You can go for miles across the most popular mountain, including Snowdon, and see hardly a trace of ancient man. Yet as soon as you come near the coast you see some of the seaward slopes littered with ancient settlements. Locally they are known as Irishmen's huts and to see them at their best I would always go to the Town of the Giants, an Iron Age fortress on the hills which English tourists have always called The Rivals⁴.

It was the antiquarian, Thomas Pennant, who first put this hill fort on the map by declaring it "the most perfect British post I ever beheld."⁵ No doubt when he said that in 1773 the perimeter walls were much higher because since then they have been robbed, probably to build field walls. Then in about 1850 a local woman dreamed that a copper cauldron full of gold was buried up there and people turned the place upside down in search of it⁶. It is well worth the clamber up this steep hill to see these five acres of hut remains enclosed within their massive walls.⁷

[The Guardian]

1. Cywair

and although I am no expert on antiquities, I am always pleased to meet a standing stone or some ancient circle...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *rwf bob tro yn falch o gwrdd â maen hir...*
2. *rydw i bob amser yn falch o gael gweld carreg neu ryw gylch hynafol...*
3. *mae bob amser yn rhoi pleser i mi ddod wyneb yn wyneb â maen hir...*
4. *rydw i bob amser yn falch o gwrdd â charreg sefyll...*
5. *rwf wastad yn falch o gyfarfod â maen safadwy...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *rwf bob amser yn falch o ddod ar draws maen hir neu ryw gylch hynafol...*

SYLW:

Mae'r cyfieithwyr yn dilyn y Saesneg yn slafaidd yn y brawddegau aflwyddiannus uchod. Maent wedi defnyddio geiriau fel *cwrdd â/cyfarfod â* fel y gwnaed yn y Saesneg 'meet'.

Chwerthinllyd braidd yw awgrymu *dod wyneb yn wyneb â* yn y cyddestun hwn.

Nid yw dweud *carreg* fel y gwneir yn enghraifft Afl.2 yn cyfleu'r ystyr yn llawn. Mae'n amlwg nad oedd y cyfieithwyr yn gyfarwydd â hanes eu gwlad neu ni fyddent wedi bathu rhyw dermau megis *carreg sefyll/safadwy*.

2. **Cystrawen** **to remind me**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *i f'atgoffa*
2. *i fy atgoffa*
3. *i'm atgoffa*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *i'm hatgoffa*

SYLW:

Sylwch ar y defnydd o'r rhagenw personol mewol (gwrthrychol) 'm' uchod. Chwiliwch am ragor o wybodaeth am y rhagenwau personol yn *Y Golygiadur* (Rhiannon Ifans), tt. 295–299 ac yn *Gramadeg Cymraeg*, (David Thorne), tt. 179–182. Nodwch yn arbennig fod 'h' yn datblygu ar ôl yr 'm' dan sylw.

3. **Cystrawen** **One thing obvious about these relics of prehistory is how rare they are...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *pa mor brin y maent...*
2. *pa mor brin yr ydynt...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *pa mor brin ydynt...*

SYLW:

Mae'n bwysig gallu gwahaniaethu rhwng defnydd *maent* ac *ydynt*. Ceir ymdriniaeth fanwl â hyn yn *Gramadeg Cymraeg* gan David Thorne, tt. 255–260.

4. **Ystyr/**
Cystrawen **I would always go to the Town of Giants, an Iron Age fortress on the hills which English tourists have always called The Rivals.**

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *...byddwn bob tro yn mynd i Dref y Cewri, caer Oes yr Haearn ar y bryniau y mae ymwelwyr o Loegr yn wastad wedi'u galw 'Yr Elynyion/Y Gelynyion'/'Y Gwrthwynebwyr'.*
2. *...fe awn ar bob cyfrif i Dref y Cewri, caer o'r Oes Haearn ar y*

bryniau y mae'r twristiaid Saesneg wastad yn eu galw'r 'Eiffl'.

3. *...y mae'r Saeson yn galw'r ymrysonwyr.*
4. *...awn i bob tro i Dref y Cawrion, caer yr Oes Haearn, y mae twristiaid o Loegr byth wedi ei galw 'The Rivals'.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *byddwn bob amser yn mynd i Dre'r Ceiri, caer o Oes yr Haearn, ar y mynyddoedd sydd wedi cael eu galw 'The Rivals' gan dwristiaid o Loegr erioed.*

SYLW:

1. Mae Afl.1–3 uchod wedi difetha ystyr y gwreiddiol drwy gyfieithu 'The Rivals' i'r Gymraeg. Mae'r enwau a gynigiwyd yn bell o fod yn gywir ac yn dangos anwybodaeth yr ymgeiswyr ynghylch mynyddoedd gogledd Cymru.
2. Mae'r gair 'always' wedi peri anhawster i lawer o'r ymgeiswyr. Beth yw ystyr yr 'always' yn y cyd-destun hwn? Onid *bob amser*? Mae *bob tro* yn cyfleu 'every time'. Anodd dweud beth yw ystyr yr ymadrodd *ar bob cyfrif* ym mrawddeg Afl.2. Mae'n arfer golygu 'by all means'. Tybed ai ymgais i gyfleu'r idiom 'ar bob cyfle' sydd yma?
3. Sylwch fod y rhagenw personol eu wedi'i golli yn Afl.3 – *yn galw'r ymrysonwyr*.
4. Dylai cyfieithydd proffesiynol wybod y gwahaniaeth rhwng 'byth' ac 'erioed'. Mae cynnwys *byth* gydag amser gorffennol y ferf yn Afl.4 uchod yn annerbyniol. Defnyddir 'erioed' gyda'r gorffennol. Edrychwch ar *Y Golygiadur* (Rhiannon Ifans), tud. 188 a thud. 341 i ddysgu rhagor am y geiriau hyn.
5. Mae'n werth nodi hefyd mai *Tre'r Ceiri* yw'r enw mwyaf cyffredin ar y gaer dan sylw yma yn ôl awdurdodau ar enwau lleoedd, megis Hywel Wyn Owen a Melville Richards. Yn sicr, nid *Tre'r Cawrion!*

5. Ystyr/
Cystrawen

It was the antiquarian, Thomas Pennant, who first put this hill fort on the map by declaring it "the most perfect British post I ever beheld".

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Yr hynafiaethydd, Thomas Pennant, oedd y cyntaf i dynnu sylw at y fryngaer hon gan ddweud ei fod "y safle mwyaf perffaith yr wyf erioed wedi'i weld".*
2. *...gan ddatgan ei bod "y gaer Brydeinig fwyaf perffaith i mi erioed ei gweld".*
3. *...drwy ei datgan "y postyn Prydeinig perffeithiaf y gwelais erioed".*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...gan ei disgrifio fel "y safle Prydeinig gorau imi ei weld erioed".*
2. *...drwy ddatgan mai dyma'r "safle Prydeinig mwyaf perffaith a welais erioed".*

SYLW:

1. Nid yw Afl 1–3 uchod yn llwyddo i gyfleu ystyr y Saesneg am nad ydynt yn cyflwyno'r pwyslais cywir. Cewch ragor o wybodaeth am y frawddeg bwysleisiol yn *Gramadeg Cymraeg* (David Thorne), tt. 361–5. Nid brawddeg ar batrwm 'dweud bod' sydd yma, ond un yn pwysleisio, sef 'dweud mai'.

2. Sylwer hefyd fod y gair *bryngaer* yn enw benywaidd ac y dylai pob cyfeiriad ato fod yn gyfeiriad benywaidd, nid fel y gwelir yn Afl.1 – *dynnu sylw at y fryngaer hon gan ddweud ei fod...*

3. Enghraifft arall o gam gyflwyno cymal perthynol yn Afl.3 – “*y postyn (sic)... y gwelais erioed*”.

6. **Cywair**

...a local woman dreamed that a copper cauldron full of gold was buried up there and people turned the place upside down in search of it.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...a throdd pobl y lle'n blith draphlith yn chwilio amdano.*
2. *...and (sic) gwnaeth y bobl lanast o'r lle mewn ymgais i ddod o hyd iddo.*
3. *...a throdd y bobl y lle ar ei ben ei waered/wyneb ei waered i chwilio.*
4. *...a difethwyd y lle wrth geisio dod o hyd iddo.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...ac fe fu pobl yn chwilio pob twll a chornel o'r gaer amdano.*
2. *...a gwnaed llanast iawn o'r lle/a dinistriwyd y lle wrth i bobl chwilio amdano.*

SYLW:

1. Cafwyd awgrymiadau niferus ar sut i gyfieithu 'turned the place upside down'. Un a gynigiwyd droeon oedd yr idiom 'ben i waered', a hynny ar y ffurf anghywir *ben ei waered*, nad yw'n gwneud llawer o synnwyr. Mae defnyddio idiomaau Cymraeg yn ganmoladwy iawn, ond dylid gofalu bod y ffurfiau'n gywir gennyh.

2. Mae'r gwall (*and* am 'a') yn Afl.2 yn enghraifft hawdd ei hadnabod o beidio â golygu'r cyfieithiad yn ofalus.

3. Mae Afl.4 yn dangos cyfieithu rhy fras ac nid yw'n cyfleu naws y gwreiddiol.

7. **Ystyr**

It is well worth the clamber up this steep hill to see these five acres of hut remains enclosed within their massive walls.

SYLW:

Ni chyfieithwyd y frawddeg hon o gwbl gan un o'r ymgeiswyr. Enghraifft bellach o ddiffyg gofal wrth olygu'r gwaith.

* **Cywirdeb**

Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:

- ney – neu

- cyfarod – cyfarfod
- anheuaeth – amheuaeth
- meant – maent
- ynghanodd – ynganodd
- stryffalgo – stryffaglo
- ydywf – ydywf
- amgeir – amgaeir

SYLW:

Gan mai gwallau teipio yw'r mwyafrif o'r rhain, mae'n debygol y byddai golygu gofalus cyn cyflwyno'r gwaith wedi eu gweld a'u cywiro.

Cafwyd hefyd lawer o wallau treiglo. Trafodwyd rhai ohonynt wrth ymdrin â Chystrawen uchod.